NASUWT Undeb yr Athrawon CYMRU The Teachers' Union

CMYRU

# RHESTR WIRIO NASUWT AR GYFER POLISÏAU CWYNO YSGOLION

## DIBEN Y RHESTR WIRIO

Mae NASUWT yn credu bod polisi cwyno sy'n deg, eglur a chyson, ac sy'n trin athrawon fel pobl broffesiynol sydd â lefel uchel o sgiliau, yn elfen hanfodol o reolaeth ysgol effeithiol.

Bydd polisïau cwyno ysgolion sy'n cyfateb â'r elfennau sydd yn y rhestr wirio hon yn helpu i ddatrys unrhyw bryderon, problemau neu gwynion a godir gan weithwyr gyda'u cyflogwyr, ac yn lleihau'r risg o wahaniaethu.

Mae'r rhestr wirio'n nodi'r gofynion sylfaenol ar gyfer polisi cwyno effeithiol ac mae'n hollol gyson â Chod Ymarfer ACAS.

Mae'r polisi cwyno enghreifftiol gan NASUWT yn cynnwys pob un o'r elfennau sydd yn y rhestr wirio hon ac mae'n gyson ac yn cydymffurfio â'r holl ofynion statudol.

## ELFENNAU ALLWEDDOL O BOLISI CWYNO

Dylai polisïau cwyno ysgolion sy'n dderbyniol i NASUWT gynnwys yr elfennau canlynol.

### Y materion y gallai gweithwyr gwyno amdanynt

Bydd y polisi'n caniatáu i weithwyr gwyno yn erbyn cyflogwyr, cyrff llywodraethu, llywodraethwyr unigol, penaethiaid, rheolwyr llinell a chydweithwyr, mewn perthynas â:

- thelerau ac amodau gwaith;
- iechyd a diogelwch;
- perthynas waith;
- bwlio ac aflonyddu;
- arferion gweithio newydd;
- amgylchedd gwaith;
- newidiadau trefniadol;
- gwahaniaethu.

Dylid ymdrin â'r tâl neu'r raddfa gyflog o dan y polisi cyflog.

## Amseriadau

Bydd y polisi'n cadarnhau y dylid:

- codi ac ymdrin â chwynion mewn da bryd ac na ddylai cyfarfodydd, penderfyniadau neu gadarnhad o'r penderfyniadau hynny gael eu hoedi'n afresymol;
- cynnal cyfarfodydd ffurfiol heb oedi afresymol ar ôl derbyn y gŵyn;
- cyfathrebu penderfyniadau i'r gweithiwr mewn ysgrifen, heb oedi afresymol a, lle bo'n briodol, y dylid nodi pa gamau mae'r cyflogwr yn bwriadu eu cymryd i ddatrys y gŵyn.

Bydd y polisi'n gosod amseriadau priodol ar gyfer pob cam ffurfiol o'r gweithdrefnau.

## Cynnwys y polisi

Dylai'r polisi ganiatáu i gwynion dderbyn sylw ac, os oes modd, gael eu datrys mor agos ag y bo modd at y man y maent wedi deillio ohono ac ar y lefel isaf bosibl, yn y lle cyntaf.

Dylai'r polisi gynnwys proses gyflafareddu wirfoddol, os bydd y ddwy ochr yn cytuno i hynny.

Rhaid i'r polisi roi gwybod i'r gweithwyr am sail y broblem a rhoi cyfle iddyn nhw gyflwyno eu hachos hwythau fel ymateb cyn i unrhyw benderfyniadau gael eu gwneud.

Mae'n rhaid i'r polisi gynnwys darpariaeth i gynnal ymchwiliadau er mwyn canfod beth yw ffeithiau'r achos.

Mae'n rhaid i'r polisi gynnwys cam anffurfiol ac o leiaf un cam ffurfiol.

Bydd y polisi'n cadarnhau y dylid cyflwyno cwynion mewn ysgrifen, y dylid eu llofnodi a'u dyddio, ac y dylent gynnwys:

- natur y gŵyn;
- disgrifiad o'r camau anffurfiol a gymerwyd yn barod, neu os nad oes unrhyw gamau wedi eu cymryd, y rhesymau pam;
- syniad o ba ganlyniad a geisir a sut y gellid cyflawni hynny.

## Cynrychiolaeth

Bydd y polisi'n cadarnhau bod yn rhaid caniatáu i weithwyr gael cwmni cynrychiolydd undeb llafur ar bob cam ffurfiol o'r polisi ac na fydd unrhyw gyfyngiadau ar natur y gynrychiolaeth gan yr undeb llafur.

Dylai'r polisi ganiatáu i weithwyr gael cwmni ar y camau anffurfiol ac ar y camau cyflafareddu, lle bo'n briodol.

## Apeliadau

Mae'n rhaid i'r polisi gynnwys darpariaethau i weithwyr apelio yn erbyn unrhyw benderfyniad ffurfiol a wneir yn unol â threfn apelio sydd yn y polisi ac sy'n ateb y gofynion statudol ar ddatrys anghydfodau.

Dylid ymdrin ag apeliadau'n ddiduedd a, lle bynnag y bo modd, gan reolwr sydd heb ymwneud â'r achos o'r blaen.

## Training

Bydd y polisi'n ymrwymo'r cyflogwr i sicrhau bod rheolwyr sy'n ymdrin â chwynion yn cael eu hyfforddi'n gywir ar gyfer y dasg, eu bod yn gyfarwydd â'r gweithdrefnau a'u bod yn gwybod sut i ymchwilio cwyn a sut i gynnal neu gynrychioli mewn gwrandawiadau cwyno.

### Cwynion ac anghydfodau ar ran grŵp o weithwyr

Dylai'r polisi ymddygiad hefyd gynnwys:

- trefn gwyno ar ran grŵp o weithwyr, lle mae mwy nag un gweithiwr yn codi cwyn ac y cytunir ar natur y gŵyn a'r datrysiad a ddymunir;
- adnodd i gynrychiolydd undeb llafur gwyno ar ran grŵp o weithwyr;
- gweithdrefn i hwyluso datrysiad anghydfodau rhwng grwpiau o athrawon a chorff llywodraethu ysgol.

### Cwynion ar ôl ymadael â swydd

Yn gyfreithiol, mae hawl gan gyn-staff i ddisgwyl i gyn-gyflogwr roi ystyriaeth drwyadl i unrhyw gwynion sydd ganddynt.

Pan dderbynnir cwynion gan gyn-staff, rhaid darparu ymateb ysgrifenedig.

### Monitro ac adolygu

Bydd y polisi'n cadarnhau:

- y caiff cofnodion eu trin yn gyfrinachol;
- y caiff unrhyw gwynion eu trin mewn ffordd deg a chyfartal.

Caiff y weithdrefn ei monitro i sicrhau ei bod yn cael ei defnyddio mewn ffordd gyson bob tro a'i bod yn cadw at y ddeddfwriaeth ar gydraddoldeb, er mwyn sicrhau bod y polisi'n gweithredu yn unol â'r dyletswyddau i hybu cydraddoldeb, i ddileu gwahaniaethu ac i feithrin cysylltiadau da rhwng staff sydd â nodweddion gwarchodedig fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.